# GARDD FOTENEG GENEDLAETHOL CYMRU

# CYLCHLYTHYR *Gwanwyn*

Rydyn ni'n cynnig dros 40 o wahanol raglenni ysgol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. Dyma flas yn unig ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig. Rhowch glic ar ein gwefan am fanylion rhaglenni eraill a gwybodaeth am sut i archebu eich lle ar daith yma.

## Newydd! Gweithdai Masnach Deg.

Beth ydyw a pham y dylwn fod yn rhan ohono? Gan ddefnyddio casgliadau o blanhigion yr Ardd, mae'r gweithdy heriol hwn yn cysylltu'r cynhyrchydd a'r defnyddwyr ac yn ymdrin â materion megis anghydraddoldeb, marchnadoedd byd-eang a'r phwer sydd gan ddefnyddwyr. Mae'r gweithdai hyn yn mynd ati o ddifri i archwilio'r cysyniad 'Meddwl yn Fyd-eang, Gweithredu'n Lleol'. Mae'r gweithdai newydd yn ategu a chefnogi Menter Masnach Deg Ysgolion, Eco 'Sgolion ac Ysgolion Iach.

## Antur NEWYDD Tedwen

Dewch i weld Tedwen a chymryd rhan yn ei hantur wrth iddi chwilio am ffrind arbennig yn yr Ardd! Mae'r rhaglen newydd hon wedi'i dylunio'n arbennig i gyflwyno gwahanol fathau o berthnasau i blant gan ddefnyddio'r cymeriadau o'n Hantur Tedwen poblogaidd iawn. Mae'n archwilio unigrwydd, bwlio, rhannu a chyfeillgarwch mewn ffordd ddiogel a chyfeillgar.

## Cylchred Bywyd Planhigion Blodeuol

Beth yw hadyn a sut mae'n teithio? Sut mae'n gwybod pryd i egino? Beth mae pob rhan o blanhigyn yn ei wneud a sut cânt eu peillio? Caiff y cwestiynau hyn ac eraill eu hateb yn y gweithdy gwych, ymarferol hwn.







## Pythefnos Masnach Deg

Cynhelir Pythefnos Masnach Deg rhwng Chwefror 27ain a Mawrth 11eg. Dyma ffordd wych o gynnwys disgyblion a staff mewn gweithgareddau masnach deg a chodi ei broffil yn eich ysgol. Am wybodaeth a syniadau ar sut i gymryd rhan, ewch i www.fairtradewales.com

## Prosiect Coedwig Law Maint Cymru

Beth yw Prosiect Maint Cymru?

Nod Maint Cymru yw dod â phawb yng Nghymru ynghyd i helpu i gynnal ardal o goedwig drofannol o faint Cymru fel rhan o ymateb cenedlaethol i newid hinsawdd.

Mae 'Ardal Maint Cymru' yn cael ei ddefnyddio'n aml i fesur cyfradd dinistrio coedwigoedd. Trwy Maint Cymru, bwriadwn droi'r defnydd negyddol o'r term hwn yn un gadarnhaol trwy annog dinasyddion Cymru i gymryd camau cadarnhaol a helpu i warchod ardal o goedwig law sy'n gyfwerth â maint ein cenedl.

Elusen amgylcheddol yw Maint Cymru sy'n uno cymunedau, busnesau, sefydliadau ac ysgolion i helpu i warchod 2 miliwn hectar o goedwigoedd glaw a chreu cysylltiadau parhaus gyda rhai o bobl dlotaf y byd. Os hoffech gymryd rhan fel ysgol, rhowch glic ar www.sizeofwales.org i ddarganfod mwy am y prosiect gwych hwn.

CYNRADD

Am rhagor o fanylion cysylltwch a Kay Bailey ar:
01558 667150 neu kbailey@gardenofwales.org.uk

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
National Botanic Garden of Wales Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru